



RHONDDA CYNON TAF

Ms Ellen Thomas Kmiec

Ein Cyf: RH/SR

Dyddiad: 15 Hydref 2026

Annwyl Ms Thomas Kmiec

Ymateb i Ddeiseb mewn perthynas â'r Ddeddf Cŵn Peryglus

Diolch am eich deiseb ac am godi'ch pryderon mewn perthynas â'r ymosodiad diweddar gan gi.

Rydw i'n cydnabod y trallod a phryder y gall digwyddiadau o'r fath eu hachosi i'r bobl yr effeithir arnyn nhw'n uniongyrchol, i drigolion lleol ac i berchnogion cyfrifol cŵn yn y gymuned. Mae unrhyw ddigwyddiad sy'n cynnwys anaf neu gi peryglus posibl yn codi braw, fel y gellid deall, a gall hyn gael effaith sylweddol ar ymdeimlad pobl o ddiogelwch.

O dan ddeddfwriaeth gyfredol, cyfrifoldeb Heddlu De Cymru yw materion sy'n ymwneud â chŵn peryglus a throseddau. Heddlu De Cymru yw'r brif asiantaeth orfodi ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau o'r fath a chymryd unrhyw gamau priodol. Felly, mae'r ymchwiliad ac unrhyw benderfyniadau o ran gorfodi yn faterion i'r Heddlu eu hystyried, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael.

Efallai bydd hi'n ddefnyddiol nodi bod Heddlu De Cymru yn arwain menter LEAD (Ymwybyddiaeth Amgylcheddol Leol ar Gŵn), sy'n cael ei chyflwyno mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Mae'n ceisio gwella gwaith ymgysylltu â pherchnogion cŵn o bob brîd, a hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol cŵn trwy addysg, ymyrraeth gynnar a gweithio mewn partneriaeth. Bwriad y fenter yw lleihau risgiau i gymunedau o ganlyniad i berchnogaeth anghyfrifol cŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy alluogi partneriaid i rannu gwybodaeth a rhoi mesurau cymesur ar waith, gan gynnwys llythyron rhybuddio, contractau ymddygiad derbyniol a chamau gorfodi lle bo'n addas.

Louise Davies

Cyfarwyddwr Iechyd a Phreigl y Gymuned

Director of Community Services

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Rhondda Cynon Taf County Borough Council

Tŷ Elai, Dwyrain Dinas Isaf, Trewiliam,

Tŷ Elai, Dinas Isaf East, Williamsstown,

CF40 1NY

Ebost: Cyfarwyddwr.Iechydycyhoedd@rctcbc.gov.uk

Email: Director.PublicHealth@rctcbc.gov.uk



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r dull partneriaeth yma a bydd yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru a phartneriaid eraill yn unol â'i bwerau a'i gyfrifoldebau. Fodd bynnag, fyddai hi ddim yn addas i'r Cyngor wneud sylwadau ar fanylion unrhyw ymchwiliad gan yr Heddlu, boed hynny ar ymchwiliad sy'n mynd rhagddo neu sydd wedi dod i ben, gan mai'r Heddlu yw'r asiantaeth sy'n arwain ymchwiliadau i gŵn peryglus.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi teimladau cryf y gymuned a'r pryderon a fynegwyd trwy'r ddeiseb yma. Mae'r pryderon yma wedi cael eu nodi a byddan nhw'n cael eu rhannu â'r partneriaid perthnasol yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd, perchnogaeth gyfrifol cŵn a lles y gymuned.

Diolch eto am dynnu'n sylw ni at y pryderon yma.

Yn gywir



Rhian Hope

Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd